

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 1118 (Cy. 233)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd  
Anifeiliaid (Awdurdodiadau)  
(Cymru) 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid ("Rheoliad 1831/2003"). Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer awdurdodi 11 o ychwanegion bwyd anifeiliaid.

Mae rheoliad 3 ac Atodlenni 1 i 11 yn darparu ar gyfer awdurdodi'r ychwanegion bwyd anifeiliaid a ganlyn—

- mae Atodlen 1 yn awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o gelad manganîs o lysin ac asid glwtamig (rhif adnabod 3b509);
- mae Atodlen 2 yn awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o *Lactobacillus buchneri* DSM 29026 (rhif adnabod 1k20759);
- mae Atodlen 3 yn awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o Broteas serin (EC 3.4.21.-) a gynhyrchir gan *Bacillus licheniformis* (DSM 19670) (rhif adnabod 4a13);
- mae Atodlen 4 yn adnewyddu awdurdodiad Pyridocsin hydroclorid (fitamin B<sub>6</sub>) (rhif adnabod 3a831);
- mae Atodlen 5 yn adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407 (rhif adnabod 4b1702). Mae enw'r straen bacterol wedi ei newid o "*Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47" i "*Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407";
- mae Atodlen 6 yn adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Bacillus velezensis* (ATCC PTA-6737) (rhif adnabod 4b1823) ac yn estyn y defnydd awdurdodedig presennol i gwmpasu pob mân rywogaeth dofednod (ac eithrio ar

gyfer dodwy), adar addurnol, adar helwriaeth ac adar hela. Addaswyd yr awdurdodiad fel a ganlyn:

- newidir enw'r straen bacterol o "*Bacillus subtilis*" i "*Bacillus velezensis*";
- cynyddir isafswm cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid yn y paratoad o  $1 \times 10^{10}$  i  $8 \times 10^{10}$  o unedau ffurfio cytref fesul gram (CFU/g);
- mae Atodlen 7 yn awdurdodiad newydd ar gyfer paratoad o *Bacillus licheniformis* DSM 28710 (rhif adnabod 4b1828);
- mae Atodlen 8 yn adnewyddu awdurdodiadau paratoad o *Clostridium butyricum* (FERM BP-2789) (rhif adnabod 4b1830) ac yn ei awdurdodi ar gyfer defnydd newydd mewn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, perchyll sugno a mân rywogaethau teulu'r moch (sugno);
- mae Atodlen 9 yn awdurdodiad newydd, ar gyfer paratoad o 6-ffytas a gynhyrchir gan *Komagataella phaffii* DSM 32854 (rhif adnabod 4a32);
- mae Atodlen 10 yn awdurdodi fformiwleiddiad newydd o ddecocwinad (Deccox<sup>®</sup>) (rhif adnabod E756) fel decocwinad (Deccox<sup>®</sup>) (rhif adnabod 51756i);
- mae Atodlen 11 yn awdurdodi ffurf addasedig o ddecocwinad (Deccox<sup>®</sup>) (rhif adnabod E756) fel decocwinad (Avi-Deccox<sup>®</sup> 60G) (rhif adnabod 51756ii). Mae'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn yn wahanol i ddecocwinad (Deccox<sup>®</sup>) o ran ei ffurf ffisegol ac oherwydd calsiwm sylffad dehydrad yw'r gwanedydd a ddefnyddir.

Mae rheoliad 3(2) yn darparu bod awdurdodiadau a roddir gan y Rheoliadau hyn yn ddilys am gyfnod o ddeng mlynedd yn unol ag Erthygl 9(7) o Reoliad 1831/2003. Mae hyn yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) o'r Rheoliad hwnnw, sy'n darparu ar gyfer estyn cyfnod yr awdurdodiad o dan amgylchiadau penodol pan fo cais i adnewyddu wedi ei gyflwyno.

Mae rheoliadau 4 i 7 yn diwygio pedwar o Reoliadau'r UE a ddargedwir sy'n awdurdodi'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 ar gyfer gwahanol is-grwpiau o ddofednod a moch. Mae enw'r straen bacterol wedi ei ddiweddarau o "*Bacillus subtilis*" i "*Bacillus velezensis*". Mae rheoliad 10(1) yn cynnwys darpariaeth drosiannol sy'n caniatáu i gynhyrchion a labelwyd gan ddefnyddio'r enw "*Bacillus subtilis*" barhau i gael eu marchnata a'u defnyddio o dan yr awdurdodiadau perthnasol er gwaethaf newid yr enw.

Mae rheoliad 8 ac Atodlen 12 yn dirymu, o ran Cymru, Reoliadau'r UE a ddargedwir sy'n cynnwys awdurdodiadau ymlaen llaw ar gyfer yr ychwanegion bwyd anifeiliaid sydd bellach wedi eu hawdurdodi gan Atodlenni 3, 4, 5, 6, 8 a 10.

Mae rheoliadau 9, 10(2) i (5) ac 11 yn cynnwys darpariaethau trosiannol sy'n caniatáu parhau i gynhyrchu a labelu cynhyrchion, am gyfnodau cyfyngedig o amser, o dan amodau awdurdodiadau ymlaen llaw o'r ychwanegion bwyd anifeiliaid perthnasol. Caiff yr ychwanegion bwyd anifeiliaid hynny eu hawdurdodi bellach gan Atodlenni 5, 6 a 10 yn y drefn honno.

Gellir cael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfennaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlenni, gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Llawr 11, Tŷ Southgate, Caerdydd, CF10 1EW neu drwy anfon e-bost i [regulated.products.wales@food.gov.uk](mailto:regulated.products.wales@food.gov.uk).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 1118 (Cy. 233)**

**AMAETHYDDIAETH, CYMRU**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd  
Anifeiliaid (Awdurdodiadau)  
(Cymru) 2022**

<i>Gwnaed</i>	<i>31 Hydref 2022</i>
<i>Gosodwyd Senedd Cymru</i>	<i>gerbron 2 Tachwedd 2022</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>24 Tachwedd 2022</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 9(1) a 18A(3) o Reoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion sydd i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid(1).

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(2).

**Enwi, rhychwant, cymhwyso a chychwyn**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;
- (b) yn gymwys o ran Cymru;
- (c) yn dod i rym ar 24 Tachwedd 2022.

- 
- (1) EUR 2003/1831, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654 a 2022/377. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504. Mae'r termau "prescribe" ac "appropriate authority" wedi eu diffinio yn Erthygl 2 o EUR 2003/1831.
- (2) EUR 2002/178, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/641. Diwygiwyd O.S. 2019/641 gan O.S. 2020/1504.

## Dehongli

### 2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “Rheoliad 1831/2003” (“*Regulation 1831/2003*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ychwanegion sydd i’w defnyddio mewn maeth anifeiliaid;

ystyr “Rheoliad 767/2009” (“*Regulation 767/2009*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 767/2009 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a’i ddefnyddio(1).

(2) Mae i unrhyw ymadrodd Cymraeg a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn sy’n cyfateb i ymadrodd Saesneg yn Rheoliad 1831/2003 neu Rheoliad 767/2009 yr un ystyr â’r ymadrodd hwnnw yn Rheoliadau’r UE a ddargedwir.

## Awdurdodiadau

3.—(1) Mae Atodlenni 1 i 11 yn cynnwys awdurdodiadau ychwanegion bwyd anifeiliaid.

(2) Yn ddarostyngedig i Erthygl 14(4) (adnewyddu awdurdodiad) o Rheoliad 1831/2003, mae’r awdurdodiadau a nodir yn Atodlenni 1 i 11 yn peidio â chael effaith ar ddiwedd 23 Tachwedd 2032.

## Diwygio awdurdodiadau *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 presennol

4.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 306/2013 sy’n ymwneud ag awdurdodiad paratoad o *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) ar gyfer perchyll wedi eu diddyfnu a Suidae wedi eu diddyfnu heblaw *Sus scrofa domesticus*(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, yng ngholofnau 3 (yr ychwanegyn) a 4 (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle “*Bacillus subtilis*”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “*Bacillus velezensis*”.

5.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 787/2013 sy’n ymwneud ag awdurdodiad paratoad o *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer tyrcwn i’w pesgi a thyrcwn a fegir ar gyfer bridio(3) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, yng ngholofnau 3 (yr ychwanegyn) a 4 (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle “*Bacillus subtilis*”,

(1) EUR 2009/767, a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/654. Diwygiwyd O.S. 2019/654 gan O.S. 2020/1504.

(2) EUR 2013/306.

(3) EUR 2013/787.

ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "*Bacillus velezensis*".

6.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2015/1020 sy'n ymwneud ag awdurdodiad paratoad o *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir dodwy a mân rywogaethau dofednod ar gyfer dodwy(1) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, yng ngholofnau 3 (yr ychwanegyn) a 4 (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle "*Bacillus subtilis*", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "*Bacillus velezensis*".

7.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2276 sy'n ymwneud ag awdurdodiad defnydd newydd o'r paratoad o *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer hychod(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn yr Atodiad, yn y tabl, yng ngholofnau 3 (yr ychwanegyn) a 4 (cyfansoddiad, fformiwla gemegol, disgrifiad, dull dadansoddi), yn lle "*Bacillus subtilis*", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "*Bacillus velezensis*".

## Dirymiau

8. Mae'r offerynnau a restrir yn Atodlen 12 wedi eu dirymu.

## Darpariaethau trosiannol: *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407 (*Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47 yn flaenorol) (rhif adnabod 4b1702)

9.—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a rhag-gymysgeddau sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Mai 2023 yn unol ag amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

(2) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy'n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Tachwedd 2023 yn unol ag amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a'i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

(3) Yn y rheoliad hwn—

---

(1) EUR 2015/1020.  
(2) EUR 2017/2276.

mae “yr awdurdodiad ymlaen llaw” (“*the prior authorisation*”) yn cyfeirio at yr awdurdodiad a gynhwysir yn Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 883/2010 sy’n ymwneud ag awdurdodi defnydd newydd o *Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer lloï magu(1);

mae “ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol” (“*relevant feed additive*”) yn cyfeirio at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407, neu fel y’i dynodwyd yn flaenorol, *Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47 sydd â’r rhif adnabod 4b1702, a awdurdodwyd yn flaenorol o dan yr awdurdodiad ymlaen llaw.

**Darpariaethau trosiannol: *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 (*Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 yn flaenorol) (rhif adnabod 4b1823)**

10.—(1) Caniateir i unrhyw sylwedd neu gynnyrch a labelwyd “*Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737” neu a labelwyd fel sylwedd neu gynnyrch sy’n cynnwys “*Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737”, ond sydd fel arall wedi cael ei gynhyrchu a’i labelu yn unol ag awdurdodiad sydd wedi ei gynnwys mewn offeryn a grybwyllir yn rheoliadau 4 i 7, barhau i gael ei roi ar y farchnad a’i ddefnyddio o dan yr awdurdodiad hwnnw.

(2) Caniateir i’r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a rhag-gymysgeddau sy’n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Mai 2023 yn unol ag amodau’r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a’i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

(3) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy’n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Tachwedd 2023 yn unol ag amodau’r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a’i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

(4) Caniateir i fwyd anifeiliaid cyfansawdd a deunyddiau bwyd anifeiliaid sy’n cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol ac a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Tachwedd 2024 yn unol ag amodau’r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael ei roi neu eu rhoi ar y farchnad a’i ddefnyddio neu eu defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

---

(1) EUR 2010/883. Mae’r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o’r Rheoliadau hyn.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae “yr awdurdodiad ymlaen llaw” (“*the prior authorisation*”) yn cyfeirio at awdurdodiad sydd wedi ei gynnwys yn—

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 107/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi(1), neu

Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 885/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, hwyaid i'w pesgi, soffieir, ffesantod, petris, ieir gini, colomennod, gwyddau i'w pesgi ac estrysiaid(2);

mae “ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol” (“*relevant feed additive*”) yn cyfeirio at yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 neu, fel y'i dynodwyd yn flaenorol, *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737, sydd â'r rhif adnabod 4b1823, a awdurdodwyd yn flaenorol o dan yr awdurdodiad ymlaen llaw.

**Darpariaeth drosiannol: Decocwinad (Deccox®)  
(rhif adnabod 51756i (E756 yn flaenorol))**

11.—(1) Caniateir i'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol a bwyd anifeiliaid sy'n ei gynnwys, a gynhyrchir ac a labelir cyn diwedd 23 Mai 2023 yn unol ag amodau'r awdurdodiad ymlaen llaw, barhau i gael eu rhoi ar y farchnad a'u defnyddio hyd nes y bydd y stociau presennol wedi eu dihysbyddu.

(2) Yn y rheoliad hwn—

mae “yr awdurdodiad ymlaen llaw” (“*the prior authorisation*”) yn cyfeirio at yr awdurdodiad sydd wedi ei gynnwys yn Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1289/2004 sy'n ymwneud ag awdurdodi am 10 mlynedd yr ychwanegyn Deccox® mewn bwydydd anifeiliaid, sy'n perthyn i'r grŵp o gocsidiostatau a sylweddau meddyginiaethol eraill(3);

mae “ychwanegyn bwyd anifeiliaid perthnasol” (“*relevant feed additive*”) yn cyfeirio at yr

- 
- (1) EUR 2010/107. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.
- (2) EUR 2011/885. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.
- (3) EUR 2004/1289. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.



ychwanegyn bwyd anifeiliaid Decocwinad (Deccox<sup>®</sup>) a awdurdodwyd yn flaenorol o dan yr awdurdodiad ymlaen llaw sydd â'r rhif adnabod E756.

*Lynne Neagle*

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru  
31 Hydref 2022

## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

### Awdurdodi paratoad o gelad manganîs o lysin ac asid glwtamig (rhif adnabod 3b509) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "cyfansoddion elfennau hybrin", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Celad manganîs o lysin ac asid glwtamig
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3b509
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Cyfansoddion elfennau hybrin
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o geladau manganîs gyda lysin a cheladau manganîs gydag asid glwtamig mewn cymhareb o 1:1 fel powdr gyda'r cydrannau a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Manganîs 15-17%</li> <li>• Lysin 20-21.5%</li> <li>• Asid glwtamig 22-24%</li> <li>• Lleithder – uchafswm o 3.5%</li> <li>• Nicel – uchafswm o 4 ppm</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Manganîs-2, asid 6-diaminohecsanoïg, clorid a halwyn hydrogen sylffad (C <sub>6</sub> H <sub>19</sub> CIN <sub>2</sub> O <sub>8</sub> SMn) Asid manganîs-2-aminopentanedioïg, sodiwm a halwyn hydrogen sylffad (C <sub>5</sub> H <sub>10</sub> NN <sub>a</sub> O <sub>9</sub> SMn)
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(1)</sup></i>	I feintioli cyfanswm y manganîs yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid : <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg Amsugniad Atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001<sup>(2)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg Allyriant Atomig â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol ar ôl treulio drwy bwysedd (ICP-AES) (BS EN 15621:2017<sup>(4)</sup>).</li> </ul> I feintioli cyfanswm y manganîs yn y rhag-gymysgeddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg Amsugniad Atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001<sup>(2)</sup>),</li> <li>• Sbectrometreg Allyriant Atomig â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(3)</sup>),</li> <li>• Sbectrometreg Allyriant Atomig â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol ar ôl treulio drwy bwysedd (ICP-AES) (BS EN 15621:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg Mâs â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018<sup>(5)</sup>).</li> </ul> I feintioli cyfanswm y manganîs yn y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg Amsugniad Atomig (AAS) – Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 152/2009 sy'n gosod y dulliau samplu a dadansoddi ar gyfer rheoli bwyd anifeiliaid yn swyddogol (Atodiad 4-C)(1),</li> <li>• Sbectrometreg Amsugniad Atomig (AAS) (BS EN ISO 6869:2001<sup>(2)</sup>),</li> </ul>

(1) EUR 2009/152, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg Allyriant Atomig â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol (ICP-AES) (BS EN 15510:2017<sup>(3)</sup>),</li> <li>• Sbectrometreg Allyriant Atomig â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol ar ôl treulio drwy bwysedd (ICP-AES) (BS EN 15621:2017<sup>(4)</sup>), neu</li> <li>• Sbectrometreg Mâs â Phlasma a Gyplyswyd yn Anwythol (ICP-MS) (BS EN 17053:2018<sup>(5)</sup>).</li> </ul>
	<p>I feintioli cynnwys lysin ac asid glwtamig yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffi cyfnewid iönau a gyplysir â deilliant ôl-golofn a synhwyrdd ffotometrig (IEC-VIS) (BS EN ISO 13903:2005<sup>(6)</sup>).</li> </ul>
	<p>I ganfod ffurf geladedig yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sbectrometreg isgoch canol (IR) ynghyd â chanfod cynnwys yr elfennau hybrin a'r lysin a'r asid glwtamig yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid.</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Pysgod: 100mg/kg (cyfanswm)
	Pob rhywogaeth arall o anifail: 150mg/kg (cyfanswm)
<i>Darpariaethau eraill</i>	Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid yn y bwyd anifeiliaid ar ffurf rhag-gymysgedd.

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2018)3918699 - 24/07/2018" a'r ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)7167892 - 20/11/2019" a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 28 Ionawr 2020. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn:

<https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2018-0009?search&form-return>

<sup>(2)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN ISO 6869:2001 "Animal feeding stuffs. Determination of the contents of calcium, copper, iron, magnesium, manganese, potassium, sodium and zinc. Method using atomic absorption spectrometry". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 15 Mawrth 2001 (ISBN 0 580 36933 1). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(3)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15510:2017 "Animal feeding stuffs. Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, iron, zinc, copper, manganese, cobalt, molybdenum and lead by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94541 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(4)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15621:2017 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of calcium, sodium, phosphorus, magnesium, potassium, sulphur, iron, zinc, copper, manganese and cobalt after pressure digestion by ICP-AES". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Awst 2017 (ISBN 978 0 580 94543 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 17053:2018 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Determination of trace elements, heavy metals and other elements in feed by ICP-MS (multi-method)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 28 Chwefror 2018 (978 0 580 94471 0). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN ISO 13903:2005 "Animal feeding stuffs. Determination of amino acids content". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 24 Hydref 2005 (ISBN 0 580 46218 8). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(7)</sup> Cynnwys yr elfen (Mn) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 2

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o *Lactobacillus buchneri* DSM 29026 (rhif adnabod 1k20759) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion technolegol" ac i'r grŵp gweithredol "ychwanegion silwair", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Lactobacillus buchneri</i> DSM 29026
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	1k20759
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion technolegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Ychwanegion silwair
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o <i>Lactobacillus buchneri</i> DSM 29026 sy'n cynnwys isafswm o $2 \times 10^{10}$ CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd hyfyw <i>Lactobacillus buchneri</i> DSM 29026
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(1)</sup></i>	Ar gyfer cyfrifo (cyfrif cytrefi) yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>Dull plât taenu ar agar MRS (BS EN 15787:2021<sup>(2)</sup>).</li> </ul> I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> <li>Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(3)</sup></i>	Isafswm cynnwys yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid pan nad yw wedi ei gyfuno â micro-organeddau eraill fel ychwanegion silwair: $5 \times 10^7$ CFU/kg o ddeunydd ffres sy'n hawdd ac yn gymedrol anodd i'w silweirio <sup>(4)</sup>
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(3)</sup></i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio.

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)4747322 - 22/07/2019" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 18 Hydref 2019. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2018-0093>.

<sup>(2)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15787:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Lactobacillus* spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Rhagfyr 2021 (ISBN 978 0 580 99831 7). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>

<sup>(3)</sup> Cynnwys yr elfen *Lactobacillus buchneri* DSM 29026 mewn CFU o ychwanegyn/kg o ddeunydd ffres.

<sup>(4)</sup> Porthiant hawdd i'w silweirio: > 3% o garbohydradau hydawdd mewn deunydd ffres; porthiant sy'n gymedrol anodd i'w silweirio: 1.5-3.0% o garbohydradau hydawdd yn y deunydd ffres yn unol â Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 429/2008 ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran llunio a chyflwyno ceisiadau ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid<sup>(1)</sup>.

## ATODLEN 3

Rheoliad 3(1)

**Awdurdodi paratoad o broteas serin (EC 3.4.21.-) a gynhyrchir gan *Bacillus licheniformis* DSM 19670 (rhif adnabod 4a13) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi**

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sylweddau gwella treuliadwyedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	Proteas serin (EC 3.4.21.-)
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4a13
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	DSM Nutritional Products Ltd (Y Swistir)
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sylweddau gwella treuliadwyedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad solet a hylifol o broteas serin (EC 3.4.21.-): <ul style="list-style-type: none"> <li>a gynhyrchir gan <i>Bacillus licheniformis</i> DSM 19670</li> <li>sydd ag isafswm actifedd o 75,000 PROT<sup>(1)</sup>/g</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Proteas serin (EC 3.4.21.-) a gynhyrchir gan <i>Bacillus licheniformis</i> DSM 19670</li> <li>Rhif CAS<sup>(2)</sup>: 37259-58-8 (proteas serin)</li> <li>Rhif EINECS<sup>(3)</sup>: 253-431-3</li> <li>Rhif IUB<sup>(4)</sup>: 3.4.21.-</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(5)</sup></i>	I feintioli actifedd proteas serin yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y bwyd anifeiliaid cyfansawdd a'r deunyddiau bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>y dull colorimetrig ar sail adwaith ensymatig proteas serin ar y swbstrad Suc-Ala-Ala-Pro-Phe-pNA.</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Ieir i'w pesgi
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(6)</sup></i>	15,000 PROT <sup>(1)</sup> /kg
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(6)</sup></i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.

<sup>(1)</sup> Un PROT yw'r swm o broteas serin sy'n rhyddhau un micromol/munud o bara-nitroanilin (pNA) o 1 milimolar (mM) o swbstrad Suc-Ala-Ala-Pro-Phe-pNA ar pH 9 a 37°C.

<sup>(2)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(3)</sup> Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, y rhif fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C 146 A, 15.6.90, t.1.

<sup>(4)</sup> Rhif adnabod a neilltuwyd gan yr Undeb Biocemeg Rhyngwladol (IUB), sef yr Undeb Biocemeg a Bioleg Foleciwlaidd Rhyngwladol (IUBMB) bellach iubmb.org.

<sup>(5)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2019)6802984 - 04/11/2019" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 27 Ionawr 2020. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2019-0010>.

<sup>(6)</sup> Cynnwys Proteas serin mewn PROT/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 4

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad pyridocsin hydroclorid (fitamin B<sub>6</sub>) (rhif adnabod 3a831) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail

Mae'r sylwedd a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion maethol" ac i'r grŵp gweithredol "fitaminau, pro-fitaminau a sylweddau wedi eu diffinio'n dda yn gemegol sydd ag effaith debyg", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	Pyridocsin hydroclorid (fitamin B <sub>6</sub> )
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	3a831
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Dim un wedi ei bennu
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion maethol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Fitaminau, pro-fitaminau a sylweddau wedi eu diffinio'n dda yn gemegol sydd ag effaith debyg
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Pyridocsin hydroclorid, gyda meini prawf puredd heb fod yn llai na 98.5%
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pyridocsin hydroclorid: C<sub>8</sub>H<sub>11</sub>NO<sub>3</sub>·HCl</li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>:58-56-0</li> <li>• Rhif EINECS<sup>(2)</sup>: 200-386-2</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(3)</sup></i>	I ganfod pyridocsin hydroclorid (fitamin B <sub>6</sub> ) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Titradiad ag asid perclorig (Ph. Eur. 10fed argraffiad, monograff 0245<sup>(4)</sup>).</li> </ul>
	I ganfod pyridocsin hydroclorid (fitamin B <sub>6</sub> ) mewn rhag-gymysgeddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro wedi ei gyplysu â synhwyrdd Uwch Fioled (RP-HPLC-UV) (VDLUFA 13.9.1<sup>(5)</sup>).</li> </ul>
	I ganfod pyridocsin hydroclorid (fitamin B <sub>6</sub> ) mewn bwyd anifeiliaid a dŵr: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro wedi ei gyplysu â synhwyrdd fflworoleuedd (RP-HPLC-FLD) – dull yn seiliedig ar BS EN 14164:2014<sup>(6)</sup>.</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Pob rhywogaeth o anifail
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Dim
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(7)</sup></i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres ac mewn dŵr.
	2. Gellir defnyddio pyridocsin hydroclorid (fitamin B <sub>6</sub> ) mewn dŵr i'w yfed.

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Stocrestr Ewropeaidd o Sylweddau Masnachol Presennol, y rhif fel y'i cyhoeddwyd yn OJ Rhif C 146 A, 15.6.90, t.1.

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 515/2011. Mae'r Rheoliad hwnnw wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.

- <sup>(3)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.DG.D.6/CvH/GB/ag/ARES(2011)356822" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2010-0139>.
- <sup>(4)</sup> European Pharmacopoeia, Cyfarwyddiaeth Ewropeaidd ar gyfer Ansawdd Meddyginiaethau a Gofal Iechyd, 10fed argraffiad. Cyhoeddwyd 1 Gorffennaf 2019 (ISBN 9789999146111).
- <sup>(5)</sup> Llyfr Dull Cymdeithas Sefydliadau Dadansoddi ac Ymchwilio Amaethyddol yr Almaen (VDLUFÄ), Cyfrol III, 6ed atodiad 2006, Dadansoddi Bwydydd Anifeiliaid yn Gemegol (ISBN 978 3 941273 14 6), <https://vdlufa.de>.
- <sup>(6)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 14164:2014 "Foodstuffs. Determination of vitamin B<sub>6</sub> by high performance chromatography". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Mehefin 2014 (ISBN 978 0 580 77941 1). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.
- <sup>(7)</sup> Cynnwys pyridocsin hydroclorid (fitamin B<sub>6</sub>) mewn mg o ychwanegyn/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 5

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407 (*Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47 yn flaenorol) (rhif adnabod 4b1702) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer lloi magu

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-4407
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4b1702
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	S.I. Lesaffre
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o <i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-4407 ar ffurf solet sy'n cynnwys isafswm o 5x10 <sup>9</sup> CFU/g
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Celloedd sych hyfyw <i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-4407
<i>Dulliau dadansoddi</i> <sup>(1)</sup>	Ar gyfer cyfrifo (cyfrif cytrefi) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>Y dull plât arllwys gan ddefnyddio agar CGED (cloramffenicol, glwcos, echdynnyn burum) (BS EN 15789:2021<sup>(2)</sup>).</li> </ul> Ar gyfer adnabod y straen burum: <ul style="list-style-type: none"> <li>Y dull adwaith cadwynol polymerasau (PCR) (DD CEN/TS 15790:2008<sup>(3)</sup>).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Lloi magu
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> <sup>(4)</sup>	1.5 x 10 <sup>9</sup> CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> <sup>(4)</sup>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.DG.D.6/CvH/DM/mds/ARES(2010)967257" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2010-0038>.

<sup>(2)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15789:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Saccharomyces cerevisiae* used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99832 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(3)</sup> O dan y cyfeirnod DD CEN/TS 15790:2008 "Animal Feeding Stuffs – PCR typing of probiotic strains of *Saccharomyces cerevisiae* (yeast)". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Ionawr 2009 (ISBN 978 0 580 61806 2). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(4)</sup> Cynnwys *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-4407 mewn CFU/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn adnewyddu'r awdurdodiad a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 883/2010. Mae'r Rheoliad hwnnw wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn, ond gweler y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 9.



ATODLEN 6

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad (ag addasiad) paratoad o *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 (*Bacillus Subtilis* ATCC PTA-6737 yn flaenorol) (rhif adnabod 4b1823) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, ieir a fegir ar gyfer dodwy, hwyaid i'w pesgi, soffleir, ffesantod, petris, ieir gini, colomennod, gwyddau i'w pesgi ac estrysiaid, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid gan estyn y defnydd presennol i gwmpasu pob mân rywogaeth dofednod (ac eithrio ar gyfer dodwy), adar addurnol, adar helwriaeth ac adar hela

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Bacillus velezensis</i> ATCC PTA-6737
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4b1823
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Kemin Europa N.V.
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o <i>Bacillus velezensis</i> ATCC PTA-6737 sy'n cynnwys isafswm o 8 x 10 <sup>10</sup> CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Sborau hyfyw <i>Bacillus velezensis</i> ATCC PTA-6737
<i>Dulliau dadansoddi</i> <sup>(1)</sup>	Ar gyfer cyfrifo (cyfrif cytrefi) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull plât taenu gan ddefnyddio agar soia trypton gan rag-drin y samplau bwyd anifeiliaid â gwres<sup>(2)</sup>.</li> </ul> I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ieir i'w pesgi</li> <li>• Ieir a fegir ar gyfer dodwy</li> <li>• Mân rywogaethau dofednod (ac eithrio ar gyfer dodwy)</li> <li>• Adar addurnol</li> <li>• Adar helwriaeth</li> <li>• Adar hela</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> <sup>(3)</sup>	1 x 10 <sup>7</sup> CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> <sup>(3)</sup>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	<p>1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.</p> <p>2. Os yw <i>Bacillus velezensis</i> ATCC PTA-6737 i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cocsidiostatau, awdurdodir defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn gyda'r cocsidiostatau a ganlyn yn unig,</p>

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn adnewyddu'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 107/2010 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 885/2011. Mae'r Rheoliadau hynny wedi eu dirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn, ond gweler y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 10.

	<p>ac yn unol â'u meini prawf awdurdodi unigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Decocwinad</li> <li>• Deuclaswritl</li> <li>• Lasalosit A sodiwm</li> <li>• Madwramisin amoniwm</li> <li>• Monensin sodiwm</li> <li>• Narasin</li> <li>• Narasin/Nicarbasin (i'w defnyddio ar y cyd yn unig)</li> <li>• Robenidin hydroclorid</li> <li>• Salinomisin sodiwm</li> </ul>
--	---

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "D08/FSQ/CVH/SY/Ares(2009)61627" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2008-0039>.

<sup>(2)</sup> Nid yw'r dull hwn yn addas ar gyfer canfod *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid na bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar grynodiadau islaw lefel yr isafswm cynnwys.

<sup>(3)</sup> Cynnwys *Bacillus velezensis* ATCC PTA-6737 mewn CFU/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 7

Rheoliad 3(1)

**Awdurdodi paratoad o *Bacillus licheniformis* DSM 28710 (rhif adnabod 4b1828) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir dodwy, mân rywogaethau dofednod ar gyfer dodwy, rhywogaethau dofednod ar gyfer bridio ac adar addurnol**

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Bacillus licheniformis</i> DSM 28710
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4b1828
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	HuvePharma NV
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegyn bwyd anifeiliaid sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o <i>Bacillus licheniformis</i> DSM 28710 ar ffurf solet sy'n cynnwys isafswm o $3.2 \times 10^9$ CFU/g o ychwanegyn.
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Sborau hyfyw <i>Bacillus licheniformis</i> DSM 28710.
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(1)</sup></i>	Ar gyfer cyfrifo (cyfrif cytrefi) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull plât taenu (BS EN 15784:2021<sup>(2)</sup>).</li> </ul>
	I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Electrofforesis Jel Maes Pylsedig (PFGE).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ieir dodwy</li> <li>• Mân rywogaethau dofednod ar gyfer dodwy</li> <li>• Rhywogaethau dofednod ar gyfer bridio</li> <li>• Adar addurnol</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(3)</sup></i>	$1.6 \times 10^9$ CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(3)</sup></i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.
	2. Os yw <i>Bacillus licheniformis</i> DSM 28710 i'w ddefnyddio mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cocsidiostatau, awdurdodir defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn gyda'r cocsidiostatau a ganlyn yn unig, ac yn unol â'u meini prawf awdurdodi unigol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deuclaswrit</li> <li>• Lasalosisid A sodiwm</li> </ul>

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2015)4524025 - 23/10/2015" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2015-0016>.

<sup>(2)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 15784:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Bacillus* spp. used as feed additive". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99829 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(3)</sup> Cynnwys *Bacillus licheniformis* DSM 28710 mewn CFU/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 8

Rheoliad 3(1)

Adnewyddu awdurdodiad paratoad o *Clostridium butyricum* FERM BP-2789 (rhif adnabod 4b1830) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, tyrcwn i'w pesgi, tyrcwn a fegir ar gyfer bridio, mân rywogaethau adar (ac eithrio adar dodwy), perchyll wedi eu diddyfnu a mân rywogaethau teulu'r moch wedi eu diddyfnu, a'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi, perchyll sugno a mân rywogaethau teulu'r moch sy'n sugno

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sefydlogyddion fflora'r perfedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	<i>Clostridium butyricum</i> FERM BP-2789
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4b1830
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Miyarisan Pharmaceutical Co Ltd
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegyn sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sefydlogyddion fflora'r perfedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o <i>Clostridium butyricum</i> FERM BP-2789 ar ffurf solet sy'n cynnwys isafswm o $5 \times 10^8$ CFU/g o'r ychwanegyn
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Sborau hyfyw <i>Clostridium butyricum</i> FERM BP-2789
<i>Dulliau dadansoddi</i> <sup>(1)</sup>	Ar gyfer cyfrifo (cyfrif cytrefi) yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull plât arllwys yn seiliedig ar BS ISO 15213:2003<sup>(2)</sup>.</li> </ul> I adnabod straen bacterol: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Electrofforesis jel maes pylsedig (PFGE).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ieir i'w pesgi</li> <li>• Ieir a fegir ar gyfer dodwy</li> <li>• Tyrcwn i'w pesgi</li> <li>• Tyrcwn a fegir ar gyfer bridio</li> <li>• Mân rywogaethau adar (ac eithrio adar dodwy)</li> <li>• Perchyll (sugno ac wedi eu diddyfnu)</li> <li>• Mân rywogaethau teulu'r moch (sugno ac wedi eu diddyfnu)</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys</i> <sup>(3)</sup>	Ar gyfer tyrcwn i'w pesgi a thyrwn a fegir ar gyfer bridio: $1.25 \times 10^8$ CFU/kg Ar gyfer y rhywogaethau/categoriâu eraill: $2.5 \times 10^8$ CFU/kg
<i>Uchafswm cynnwys</i> <sup>(3)</sup>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres. 2. Os yw <i>Clostridium butyricum</i> FERM BP-2789 ) i'w ddefnyddio mewn

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn adnewyddu'r awdurdodiadau a roddwyd o dan Reoliadau Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 373/2011, Rhif 374/2013 a Rhif 1108/2014. Mae'r Rheoliadau hynny wedi eu dirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn.

	<p>bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys cocsidiostatau, awdurdodir defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid hwn gyda'r cocsidiostatau a ganlyn yn unig, ac yn unol â'u meini prawf awdurdodi unigol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Decocwinad</li> <li>• Deuclaswrit</li> <li>• Lasalosisid A sodiwm</li> <li>• Madwramisin amoniwm</li> <li>• Monensin sodiwm,</li> <li>• Narasin,</li> <li>• Narasin/Nicarbasin (i'w defnyddio ar y cyd)</li> <li>• Robenidin hydroclorid</li> <li>• Salinomisin sodiwm</li> <li>• Semdwramisin sodiwm</li> </ul>
--	--

<sup>(1)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "JRC.DG.D.6.CvH/DM/hn/ARES (2010)-355411" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2010-0005>.

<sup>(2)</sup> O dan y cyfeirnod BS ISO 15213:2003 "Microbiology of food and animal feeding stuffs – Horizontal method for the enumeration of sulfite-reducing bacteria growing under anaerobic conditions". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 16 Mai 2003 (ISBN 0 580 41892 8). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(3)</sup> Cynnwys *Clostridium butyricum* FERM BP-2789 mewn CFU/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 9

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi paratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) (rhif adnabod 4a32) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o ddofednod, adar addurnol, perchyll, moch i'w pesgi, hychod, mân rywogaethau teulu'r moch i'w pesgi neu ar gyfer atgenhedlu

Mae'r paratoad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "ychwanegion sootechnegol" ac i'r grŵp gweithredol "sylweddau gwella treuliadwyedd", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl.

<i>Yr ychwanegyn</i>	6-ffytas (EC 3.1.3.26)
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	4a32
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Huvepharma EOOD
<i>Categori ychwanegion</i>	Ychwanegion sootechnegol
<i>Grŵp gweithredol</i>	Sylweddau gwella treuliadwyedd
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	Paratoad o 6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir gan <i>Komagataella phaffii</i> DSM 32854 sydd ag isafswm actifedd o 5000 FTU <sup>(1)</sup> /g ar ffurf ronynnol, araenedig neu hylifol
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	6-ffytas (EC 3.1.3.26) a gynhyrchir drwy eplesu â <i>Komagataella phaffii</i> DSM 32854
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(2)</sup></i>	I feintioli actifedd ffytas yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull colorimetrig yn seiliedig ar adwaith ensymatig y ffytas ar y ffytad (VDLUF 27.1.4<sup>(3)</sup>).</li> </ul>
	I feintioli actifedd ffytas yn y rhag-gymysgeddau: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull colorimetrig yn seiliedig ar adwaith ensymatig y ffytas ar y ffytad (VDLUF 27.1.3<sup>(4)</sup>).</li> </ul>
	I feintioli actifedd ffytas yn y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y dull colorimetrig yn seiliedig ar adwaith ensymatig y ffytas ar y ffytad (BS EN ISO 30024:2009<sup>(5)</sup>).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Pob rhywogaeth o ddofednod</li> <li>• Adar addurnol</li> <li>• Perchyll</li> <li>• Moch i'w pesgi</li> <li>• Hychod</li> <li>• Mân rywogaethau teulu'r moch i'w pesgi neu ar gyfer atgenhedlu</li> </ul>
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(6)</sup></i>	250 FTU/kg
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(6)</sup></i>	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.

<sup>(1)</sup> FTU = unedau ensym ffytas. Un FTU yw'r swm o'r ensym sy'n rhyddhau 1 micromol (µm) o ffosffad anorganig o sodiwm ffytad y funud o dan amgylchiadau adweithio o pH 5.5 a 37°C.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2020)762221 - 06/02/2020" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 4 Mai 2020. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2019-0052>.

- <sup>(3)</sup> Llyfr Dull Cymdeithas Sefydliadau Dadansoddi ac Ymchwilio Amaethyddol yr Almaen (VDLUFÄ), Cyfrol III, Dulliau sengl newydd 2016, Dadansoddi Bwydydd Anifeiliaid yn Gemegol (ISBN 978 3 941273 14 6), <https://vdlufa.de>.
- <sup>(4)</sup> Llyfr Dull Cymdeithas Sefydliadau Dadansoddi ac Ymchwilio Amaethyddol yr Almaen (VDLUFÄ), Cyfrol III, 8fed atodiad 2012, Dadansoddi Bwydydd Anifeiliaid yn Gemegol (ISBN 978 3 941273 14 6), <https://vdlufa.de>.
- <sup>(5)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN ISO 30024:2009 "Animal feeding stuffs. Determination of phytase activity". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 30 Medi 2009 (ISBN 978 0 580 62651 7). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.
- <sup>(6)</sup> Cynnwys 6-ffytas mewn FTU/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.



ATODLEN 10

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi decocwinad (Deccox<sup>®</sup>) (rhif adnabod 51756i) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi

Mae'r sylwedd decocwinad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "cocsidiostatau a histomonostatau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	Decocwinad (Deccox <sup>®</sup> )
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	51756i
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Zoetis Belgium SA
<i>Categori ychwanegion</i>	Cocsidiostatau a Histomonostatau
<i>Grŵp gweithredol</i>	Dim
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Decocwinad, 60.0 g/kg</li> <li>• Olew soia diarogleuedig puredig, 28.5 g/kg</li> <li>• Silica coloidaidd, 0.6 g/kg</li> <li>• Eilion gwenith, q.s. 1kg</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Decocwinad: (Ethyl 6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsylad) <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fformiwla gemegol: C<sub>24</sub>H<sub>35</sub>NO<sub>5</sub></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 18507-89-6</li> </ul>
	Amhureddau cysylltiedig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Methyl-6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsilad: &lt; 1.0%</li> <li>• Asid 6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsylig: &lt; 0.5%</li> <li>• Deuethyl-4-desyclocsi-3-ethocsianilinomethylenemalonad: &lt; 0.5%</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(1)</sup></i>	I feintioli decocwinad yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro wedi ei gyplysu â synhwyrdd fflworoleuedd (RP-HPLC-FL) (BS EN 16162:2012<sup>(3)</sup>).</li> </ul>
	I feintioli decocwinad mewn meinweoedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro wedi ei gyplysu â sbectrometr màs pedrypol triphlyg (RP-HPLC-MS/MS<sup>(4)</sup>).</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu gategori o anifail</i>	Ieir i'w pesgi
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(5)</sup></i>	30 mg/kg
<i>Uchafswm cynnwys<sup>(5)</sup></i>	40 mg/kg

(1) Mae'r awdurdodiad hwn yn disodli awdurdodiad decocwinad (Deccox<sup>®</sup>) o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1289/2004. Mae'r Rheoliad hwn wedi ei ddirymu gan reoliad 8 o'r Rheoliadau hyn, ond gweler y ddarpariaeth drosiannol yn rheoliad 11. Gweler hefyd Atodlen 11 i'r Rheoliadau hyn sy'n cynnwys ailawdurdodiad ar wahân ar gyfer decocwinad (Deccox<sup>®</sup>), ond ar ffurf addasedig - decocwinad (Avi-Deccox<sup>®</sup> 60G).

<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.
	2. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid mewn bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd.
	3. Ni chaniateir cymysgu decocwinad gyda chocsidiostatau eraill.
	4. Ni chaniateir defnyddio decocwinad mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys bentonit.
	5. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gynnal rhaglen fonitro ar ôl rhyddhau ar y farchnad ar gyfer ymwrthedd i facteria ac <i>Eimeria</i> spp. Rhaid cyflwyno adroddiad yn cynnwys canlyniad y rhaglen honno i Weinidogion Cymru erbyn diwedd 23 Tachwedd 2031.

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2013)3639174 - 04/12/2013 " ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2013-0034>.

<sup>(3)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 16162:2012 "Animal feeding stuffs. Determination of decoquinatate by HPLC with fluorescence detection". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Mawrth 2012 (ISBN 978 0 580 67002 2). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(4)</sup> "Safety and efficacy of Deccox® (decoquinatate) for chickens for fattening". Cyhoeddwyd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yng Nghyfnodolyn yr EFSA, Cyfrol 17, Rhifyn 1 ar 14 Ionawr 2019. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://www.efsa.europa.eu/en/efsajournal/pub/5541>.

<sup>(5)</sup> Cynnwys decocwinad (Deccox®) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

ATODLEN 11

Rheoliad 3(1)

Awdurdodi decocwinad (Avi-Deccox<sup>®</sup> 60G) (rhif adnabod 51756ii) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi

Mae'r sylwedd decocwinad a bennir yn y tabl, sy'n perthyn i'r categori ychwanegion "cocsidiostatau a histomonostatau", wedi ei awdurdodi fel ychwanegyn mewn maeth anifeiliaid yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn y tabl(1).

<i>Yr ychwanegyn</i>	Decocwinad (Avi-Deccox <sup>®</sup> 60G)
<i>Rhif adnabod yr ychwanegyn</i>	51756ii
<i>Deiliad yr awdurdodiad</i>	Zoetis Belgium SA
<i>Categori ychwanegion</i>	Cocsidiostatau a histomonostatau
<i>Grŵp gweithredol</i>	Dim
<i>Cyfansoddiad yr ychwanegyn</i>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Decocwinad, 60.0 g/kg</li> <li>• Silica coloidaidd, 0.6 g/kg</li> <li>• Silicon deuocsid, 4.0 g/kg</li> <li>• Sodiwm carbocsimethylcellwlos, 30.0 g/kg</li> <li>• Calsiwm sylffad deuhydrad, q.s. ad 1kg</li> </ul>
<i>Nodweddiad y sylwedd(au) actif</i>	Decocwinad: (Ethyl 6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsylad) <ul style="list-style-type: none"> <li>• Fformiwla gemegol: C<sub>24</sub>H<sub>35</sub>NO<sub>5</sub></li> <li>• Rhif CAS<sup>(1)</sup>: 18507-89-6</li> </ul>
	Amhureddau cysylltiedig: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Methyl-6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsylad: &lt; 1.0%</li> <li>• Asid 6-desyclocsi-7-ethocsi-4-hydrocsicwinolin-3-carbocsylig: &lt; 0.5%</li> <li>• Deuethyl-4-desyclocsi-3-ethocsianilinomethylenemalonad: &lt; 0.5%</li> </ul>
<i>Dulliau dadansoddi<sup>(2)</sup></i>	I feintioli decocwinad yn yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid, y rhag-gymysgeddau, y deunyddiau bwyd anifeiliaid a'r bwyd anifeiliaid cyfansawdd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro gyda synhwyrdd fflworoleuedd (RP-HPLC-FL) (BS EN 16162:2012<sup>(3)</sup>).</li> </ul>
	I feintioli decocwinad mewn meinweoedd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cromatograffaeth Hylif Perfformiad Uchel gwedd wrthdro wedi ei gyplysu â sbectrometr màs pedrypol triphlyg (RP-HPLC-MS/MS<sup>(4)</sup>) neu unrhyw ddull dadansoddi arall sy'n cydymffurfio â'r gofynion a osodir gan Benderfyniad y Comisiwn 2002/657/EC ynghylch perfformiad dulliau dadansoddi a dehongli canlyniadau<sup>(2)</sup>.</li> </ul>
<i>Rhywogaeth neu categori o anifail</i>	Ieir i'w pesgi
<i>Oedran hynaf</i>	Dim
<i>Isafswm cynnwys<sup>(5)</sup></i>	30 mg/kg

(1) Mae'r awdurdodiad hwn ar gyfer decocwinad (Deccox<sup>®</sup>) ar ffurf addasedig, a awdurdodwyd yn flaenorol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1289/2004, ac sydd bellach wedi ei awdurdodi o dan Atodlen 10 i'r Rheoliadau hyn.  
(2) EUD 2002/657, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1461.

<i>Uchafswm cynnwys<sup>(5)</sup></i>	40 mg/kg
<i>Darpariaethau eraill</i>	1. Yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid a'r rhag-gymysgeddau, rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o ran trin â gwres.
	2. Rhaid ymgorffori'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid yn y bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar ffurf rhag-gymysgedd.
	3. Ni chaniateir cymysgu decocwinad â chocsidiostatau eraill.
	4. Ni chaniateir defnyddio decocwinad mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys bentonit.
	5. Rhaid i ddeiliad yr awdurdodiad gynnal rhaglen fonitro ar ôl rhyddhau ar y farchnad ar gyfer ymwrthedd i facteria ac <i>Eimeria</i> spp. Rhaid cyflwyno adroddiad yn cynnwys canlyniad y rhaglen honno i Weinidogion Cymru erbyn diwedd 23 Tachwedd 2031.

<sup>(1)</sup> CAS Registry Number® a neilltuwyd i'r paratoad hwn gan y Gwasanaeth Crynodebu Cemegol <https://www.cas.org/cas-data/cas-registry>.

<sup>(2)</sup> Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi eu nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2014)2704635 - 18/08/2014" a "JRC.D.5/SFB/CvH/MGH /mds/Ares" ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016. Mae'r ddogfen ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://ec.europa.eu/jrc/en/eurl/feed-additives/evaluation-reports/fad-2014-0014>.

<sup>(3)</sup> O dan y cyfeirnod BS EN 16162:2012 "Animal feeding stuffs. Determination of decoquinat by HPLC with fluorescence detection". Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Safonau Prydeinig ar 31 Mawrth 2012 (ISBN 978 0 580 67002 2). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

<sup>(4)</sup> "Safety and efficacy of Deccox® (decoquinat) for chickens for fattening". Cyhoeddwyd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) yng Nghyfnodolyn yr EFSA, Cyfrol 17, Rhifyn 1 ar 14 Ionawr 2019. Mae'r ddogfen hon ar gael ar y cyfeiriad a ganlyn: <https://www.efsa.europa.eu/en/efsajournal/pub/5541>.

<sup>(5)</sup> Cynnwys decocwinad (Avi-Deccox®) mewn mg/kg o fwyd anifeiliaid cyflawn sydd â chynnwys lleithder o 12%.

## ATODLEN 12

Rheoliad 8

## Dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1289/2004 sy'n ymwneud ag awdurdodi am 10 mlynedd yr ychwanegyn Deccox<sup>®</sup> mewn bwydydd anifeiliaid, sy'n perthyn i'r grŵp o gocsidiostatau a sylweddau meddyginiaethol eraill(1).

Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 903/2009 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Clostridium butyricum* FERM-BP 2789 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi (deiliad yr awdurdodiad Miyarisan Pharmaceutical Co. Ltd, a gynrychiolir gan Huvepharma NV Belgium)(2).

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 8/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi'r proteas serin a gynhyrchir gan *Bacillus licheniformis* (DSM 19670) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi (deiliad yr awdurdodiad DSM Nutritional Products Ltd, a gynrychiolir gan DSM Nutritional Products Sp.Z.o.o)(3).

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 107/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi (deiliad yr awdurdodiad Kemin Europa NV)(4).

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 883/2010 sy'n ymwneud ag awdurdodi defnydd newydd o *Saccharomyces cerevisiae* NCYC Sc 47 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer lloi magu (deiliad yr awdurdodiad Société industrielle Lesaffre)(5).

Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 168/2011 sy'n diwygio Rheoliad (EU) Rhif 107/2010 ynghylch y defnydd o'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid *Bacillus subtilis* ATCC PTA-6737 mewn bwyd anifeiliaid sy'n cynnwys madwramisin amoniwm, monensin sodiwm, narasin, neu robenidin hydroclorid(6).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 373/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Clostridium butyricum* FERM-BP 2789 fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer mân rywogaethau adar ac eithrio adar dodwy, perchyll wedi eu diddyfnu a mân rywogaethau teulu'r moch (wedi'u diddyfnu) ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 903/2009 (deiliad yr awdurdodiad Miyarisan Pharmaceutical Co. Ltd, a gynrychiolir gan Huvepharma NV Belgium)(7).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 515/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi fitamin B<sub>6</sub> fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth o anifail(8).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 885/2011 sy'n ymwneud ag awdurdodi *Bacillus subtilis* (ATCC PTA-6737) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy, hwyaid i'w pesgi, soffieir, ffesantod, petris, ieir gini, colomennod, gwyddau i'w pesgi ac estrysiaid (deiliad yr awdurdodiad Kemin Europa NV)(9).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 357/2013 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 903/2009 a Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 373/2011 ynghylch isafswm cynnwys paratoad o *Clostridium butyricum* (FERM BP-2789) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir i'w pesgi a mân rywogaethau adar (ac eithrio adar dodwy) (deiliad yr awdurdodiad Miyarisan Pharmaceutical Co. Ltd a gynrychiolir gan Miyarisan Pharmaceutical Europe S.L.U.)(10).

- 
- (1) EUR 2004/1289.  
 (2) EUR 2009/903.  
 (3) EUR 2010/8.  
 (4) EUR 2010/107.  
 (5) EUR 2010/883.  
 (6) EUR2011/168.  
 (7) EUR 2011/373.  
 (8) EUR 2011/515.  
 (9) EUR 2011/885.  
 (10) EUR 2013/357.

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 374/2013 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Clostridium butyricum* (FERM-BP 2789) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer ieir a fegir ar gyfer dodwy (deiliad yr awdurdodiad Miyarisan Pharmaceutical Co. Ltd a gynrychiolir gan Huvepharma NV Belgium)(1).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 291/2014 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1289/2004 ynghylch y cyfnod cadw'n ôl a therfynau gweddillion uchaf yr ychwanegyn bwyd anifeiliaid decocwinad(2).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 1108/2014 sy'n ymwneud ag awdurdodi paratoad o *Clostridium butyricum* (FERM-BP 2789) fel ychwanegyn bwyd anifeiliaid ar gyfer tyrcwn a fegir ar gyfer bridio (deiliad yr awdurdodiad Miyarisan Pharmaceutical Co. Ltd a gynrychiolir gan Huvepharma NV Belgium)(3).

Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/1126 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 903/2009 a Rheoliadau Gweithredu (EU) Rhif 373/2011, (EU) Rhif 374/2013 ac (EU) Rhif 1108/2014 ynghylch enw cynrychiolydd yn yr UE ddeiliad awdurdodiad paratoad o *Clostridium butyricum* (FERM-BP 2789)(4).

---

(1) EUR 2013/374.  
(2) EUR 2014/291.  
(3) EUR 2014/1108.  
(4) EUR 2017/1126.